

## Y diweddaraf yn dilyn tân ar Safle Tirlenwi Hafod

Yn dilyn y tân ar Safle Tirlenwi Hafod y mis diwethaf, roeddem yn awyddus i roi'r diweddaraf ichi er mwyn esbonio'r sefyllfa bresennol a sôn am y gwaith pellach a fydd yn cael ei wneud.

### Ein rôl

Mae gan y safle tirlenwi drwydded amgylcheddol a gaiff ei rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r drwydded hon yn cynnwys nifer o amodau sy'n nodi sut y dylai Enovert fynd ati i weithredu'r safle. Mae rhai o'r amodau hyn yn ymwneud â derbyn gwastraff, rheoli nwyon tirlenwi, a'r mathau o wastraff y gellir eu tipio. Ni chaiff gwastraff peryglus ei dipio ar safle Hafod.

Nid oes a wnelo'r drwydded â pha mor agos yw'r safle at dai, oherwydd mater Cynllunio yw hynny.

Mae'r drwydded yn nodi'r mathau o wastraff y gellir eu derbyn, ond nid oes gennym y pŵer i nodi o ble y dylai'r gwastraff ddod.

### Y tân

Mae tanau ar safleoedd tirlenwi yn gymharol brin; ond pan fyddant yn digwydd, gall yr effeithiau ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol fod yn sylweddol. Ymatebodd CNC i'r tân ar Safle Tirlenwi Hafod fel rhan o ddull amlasiantaethol o ymdrin â'r digwyddiad, ochr yn ochr â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Heddlu Gogledd Cymru.

Cawsom ein rhybuddio ynglŷn â'r digwyddiad ar nos Fercher 27 Mai, ac erbyn dydd Sadwrn 30 Mai roedd y tân wedi diffodd yn llwyr. Ymddengys fod y tân wedi'i gyfyngu i arwyneb y safle yn hytrach na'i fod yn dân dwfn.

Cafodd cyngor iechyd ei roi a'i ddiweddarau'n rheolaidd yn ystod y tân a gofynnwyd i'r bobl leol aros dan do a chadw eu drysau a'u ffenestri ar gau. Cynghorwyd pobl a oedd yn poeni am eu hiechyd i gysylltu â'u meddyg teulu neu Galw Iechyd Cymru'n uniongyrchol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymchwilio i'r achos.



## Monitro ansawdd yr aer yn ystod y digwyddiad

Bu criw o arbenigwyr (a arweiniwyd gan CNC ac a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Lleol a'r Swyddfa Dywydd) yn adolygu gwybodaeth a data meteorolegol a drosglwyddwyd oddi ar y safle er mwyn asesu a fyddai yna unrhyw oblygiadau iechyd yn sgil y mwg. Penderfynasant y dylid defnyddio offer pwrpasol i fonitro ansawdd yr aer yn y gymuned.

Defnyddiwyd data monitro aer o'r offer hwn a data a gasglwyd o orsaf monitro aer arall yn Wrecsam i lywio'r gwaith o reoli'r risgiau o'r ddigwyddiad hwn. Yn gyffredinol, roedd lefelau llygredd aer yn is na'r safonau ansawdd aer sy'n berthnasol i iechyd, ond roedd cyfnodau o ddeunydd gronynnol uchel oherwydd y mwg (gan gynnwys nos 28 Mai).

Yn ystod y cyfnod hwn, efallai y byddai pobl a ddaeth i gysylltiad â'r mwg, naill ai gan eu bod allan yn yr awyr agored neu gan fod eu drysau neu eu ffenestri ar agor, wedi cael llid yn eu llygaid, eu trwyn a'u gwddf. Fodd bynnag, dim ond am gyfnod byr iawn y bu'r llygredd aer yn uwch nag y dylai fod (oddeutu 1½ awr), ac yn fuan fe syrthiodd y crynodiadau islaw'r safon ansawdd aer. Disgwylid y byddai unrhyw symptomau wedi diflannu'n gyflym ac na ddylent arwain at broblemau iechyd tymor hir.

Wrth i'r tân leihau o ran maint, fe wellodd ansawdd yr aer, ac erbyn y prynhawn ar 29 Mai roedd ansawdd aer ardal Johnstown ar y cyfan yn dda ac nid oedd yn peri unrhyw bryder o ran iechyd cyhoeddus.

Cafodd y cyngor iechyd a roddwyd ar waith yn ystod y digwyddiad ei dynnu'n ôl ar 30 Mai, pan gyhoeddwyd bod y tân wedi diffodd.

Yn dilyn y tân, fe wnaethom fynnu bod Enovert yn cyflwyno cynllun gweithredu yn nodi gofynion monitro ychwanegol, gan fynnu hefyd y dylai'r cwmni adnewyddu unrhyw seilwaith a oedd wedi'i ddifrodi gan y tân a chyflwyno mesurau ychwanegol i sicrhau bod

y risg tân yn cael ei lleihau. Ar ôl i'r gwasanaeth tân a CNC adolygu'r cynllun hwn a chael ein bodloni bod y mesurau hyn yn eu lle ac yn cael eu rhoi ar waith, rhoddwyd caniatâd i'r cwmni ailddechrau tipio rhywfaint mewn llecyn nad oedd y tân wedi effeithio arno.

Yr wythnos ganlynol, dechreuodd y safle dderbyn ei ffrydiau gwastraff rheolaidd i'w gwaredu. Mae'r gwastraff yn parhau i gael ei dipio mewn llecyn nad effeithiodd y tân arno.

## Y camau nesaf

Yn ogystal â sicrhau bod y gweithrediadau yr eir i'r afael â nhw ar y safle yn cyd-fynd â'r drwydded amgylcheddol, mae CNC wedi lansio ymchwiliad i weld a oedd unrhyw rai o amodau'r drwydded wedi cael eu torri cyn i'r tân gychwyn. Rydym yn dilyn sawl trywydd. Bydd modd inni roi'r diweddaraf i chi ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau.

Mae nifer o arolygiadau wedi cymryd lle ar y safle yn dilyn y tân ac mae CNC mewn cyswllt rheolaidd gyda Enovert sy'n darparu diweddariadau yn unol â'r Cynllun Gweithredu gytunwyd ar.

## Cyfathrebu

Rydym wedi ysgrifennu at y bobl hynny a gysylltodd â ni yn ystod y tân, a bydd ein Tîm Cyfathrebu yn defnyddio'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol i roi'r diweddaraf ichi.

Hefyd, rydym wedi cyflwyno gwybodaeth i'r Cynghorydd David Bithell, Ken Skates (Aelod o'r Senedd), Llyr Gruffydd (Aelod o'r Senedd), Simon Baynes (Aelod Seneddol) a'n Gweinidog, Lesley Griffiths trwy gyfrwng Llywodraeth Cymru.

Ymhellach, rydym yn rhan o Grŵp Cyswllt Hafod a bydd modd inni gyflwyno adborth i aelodau lleol trwy'r grŵp hwnnw.



Yr ardal tipio bresennol

Tynnwyd y llun yn ystod arolygiad ar 17 Mehefin yn dangos yr ardal lle digwyddodd y tân

## Cysylltu

**I roi gwybod inni am ddigwyddiad amgylcheddol, ffoniwch ein llinell gymorth ar 03000 653000. Bydd rhywun ar gael 24 awr y dydd i ateb eich galwad. Dewiswch opsiwn 1 i siarad Cymraeg ac opsiwn 2 i siarad Saesneg.**

**Os oes gennych bryderon yn ymwneud ag iechyd, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu Galw Iechyd Cymru.**